# Friends of the Earth Cymru press release

**Immediate release: Monday 16 February 2026**

*Datganiad dwyieithog i'r wasg yw hwn. Sgroliwch i lawr am y fersiwn Gymraeg*

## People and nature in Ceredigion Penfro constituency at serious risk from flooding and pollution

- **Raw sewage dumped into local rivers and seas over 15,096 times in 2024**
- **23,900 people in Ceredigion Penfro are at risk of flooding**
- **807 fly tipping incidents costing approximately £50,900 in 2024**
- **4700 potentially contaminated sites such as former industrial sites and disused landfills according to publicly available evidence**

Comprehensive new environmental data published by Friends of the Earth Cymru, in association with Pembrokeshire Friends of the Earth, reveal the stark gap between Welsh voters' desire for climate action and action to protect nature and the reality of environmental issues, as the nation prepares for crucial Senedd elections.

The data, covering all 16 Senedd constituencies, shows that while 55% of voters in Ceredigion Penfro want faster government action on climate, and 73% think the loss of nature should be a top concern, communities in this constituency face a mounting environmental crisis on multiple fronts.

### The sewage scandal

Water companies dumped raw sewage into Welsh rivers and seas 107,768 times during 2024, totalling 886,422 hours of pollution. That's the equivalent of 101 years of continuous sewage discharge.

In Ceredigion Penfro constituency water companies dumped raw sewage **15,096 times** during 2024, totaling **163,441 hours of pollution**.

### Flood threats

Nearly 800,000 people in Wales are at risk from flooding, which also threatens homes and businesses. 435,000 people are at risk from river and sea flooding and 357,200 from surface water flooding. Climate change is intensifying these risks.

**23,900 people in Ceredigion Penfro are at risk from flooding**, including 10,100 from rivers/seas and 13,800 from surface water.

**Fly-tipping**

Fly-tipping – the illegal dumping of waste on land or water - spoils our enjoyment of our towns and the countryside, pollutes the environment, often with microplastics, and is harmful to human health and wildlife.

It seems to be a growing problem in Wales – and expensive too. In Wales there were 42,171 fly-tipping incidents in 2024, costing almost £2m.

In the same year, there were **807 fly-tipping incidents** across Ceredigion Penfro, costing approximately **£50,900**.

**Contaminated land**

**In Pembrokeshire 4700 potentially contaminated sites** such as former industrial sites and disused landfills could be contaminated with harmful chemicals according to publicly available evidence. This leaves the public with little or no information about the safety of land that could sit beneath homes, schools, parks and nature areas.

Friends of the Earth Cymru asked Pembrokeshire County Council what information they kept on contaminated and potentially contaminated sites, researched what information is publicly available on the council's website and looked at what studies have been undertaken in the past.

**Over 45,000 potentially contaminated land sites** were identified across Wales – but almost none have been inspected.

**Bettina Becker, from Pembrokeshire Friends of the Earth, said:**

**"It is shocking to see these stark figures illustrating past and current pollution, and the impact of the climate crisis on our local communities. They show how much there is to do, and we hope that the candidates standing for the Senedd election in Ceredigion Penfro will be committed to strong action responding to the climate and nature crisis we are facing."**

**ENDS**

**Media enquiries**
Contact **Pembrokeshire Friends of the Earth**
Bettina Becker, email: info@foepembrokeshire.org.uk

**Notes to Editors:**

1. Data covers all 16 Senedd constituencies across Wales
2. Senedd constituency boundaries 2026 | DataMapWales
3. Focaldata 2023 MRP polling, commissioned by HOPE not hate. Data available at: https://www.localintelligencehub.com
4. Sewage data: total spills and duration during 2004
5. Flood risk data includes both residential and non-residential properties
6. Air quality measurements against WHO 2021 guidelines
7. Road collision data compares 2022 to 2024 figures

## Datganiad i'r wasg Cyfeillion y Ddaear Cymru

**I'w ryddhau ar unwaith: Dydd Llun 16 Chwefror 2026**

## Mae pobl a byd natur yn etholaeth Ceredigion Penfro mewn perygl difrifol o lifogydd a llygredd

- **Gollyngwyd carthion amrwd i afonydd a moroedd lleol dros 15,096 o weithiau yn 2024**
- **Mae 23,900 o bobl yng Ngheredigion Penfro mewn perygl o lifogydd**
- **Cafwyd 807 achos o dipio anghyfreithlon gan achosi cost o oddeutu £50,900 yn 2024**
- **Mae 4700 o safleoedd a allai fod wedi'u halogi megis cyn-safleoedd diwydiannol a safleoedd tirlenwi segur yn ôl tystiolaeth sydd ar gael i'r cyhoedd**

Mae data amgylcheddol newydd cynhwysfawr, a gyhoeddwyd gan Gyfeillion y Ddaear Cymru, ar y cyd â Chyfeillion y Ddaear Sir Benfro, yn datgelu'r bwlch difrifol rhwng awch pleidleiswyr o Gymru am weithredu dros yr hinsawdd a gweithredu i amddiffyn byd natur

a’r realiti o faterion amgylcheddol, wrth i’r wlad baratoi ar gyfer etholiadau hanfodol y Senedd.

Mae’r data, sy’n cwmpasu pob un o 16 etholaeth y Senedd, yn dangos tra bod 55% o bleidleiswyr Ceredigion Penfro eisiau i’r llywodraeth weithredu’n gyflymach dros yr hinsawdd, a 73% yn meddwl y dylai colli byd natur fod yn brif bryder, mae cymunedau yn yr etholaeth hon yn wynebu argyfwng amgylcheddol cynyddol mewn sawl maes.

**Y sgandal garthion**

Gollyngodd cwmnïau dŵr garthion amrwd i afonydd a moroedd Cymru 107,768 o weithiau yn ystod 2024, sy’n gyfanswm o 886,422 o oriau o lygredd. Mae hynny’n cyfateb i 101 mlynedd o arllwys carthion parhaus.

Yn etholaeth Ceredigion Penfro gollyngodd cwmnïau dŵr garthion amrwd **15,096 o weithiau** yn ystod 2024, sy’n gyfanswm o **163,441 o oriau o lygredd.**

**Bygythiadau o lifogydd**

Mae bron i 800,000 o bobl yng Nghymru mewn perygl o lifogydd, sydd hefyd yn bygwth cartrefi a busnesau. Mae 435,000 o bobl mewn perygl o lifogydd afonydd a moroedd a 357,200 o lifogydd dŵr wyneb. Mae’r newid yn yr hinsawdd yn dwysáu’r peryglon hyn.

**Mae 23,900 o bobl yng Ngheredigion Penfro mewn perygl o lifogydd**, gan gynnwys 10,100 gan afonydd/moroedd a 13,800 gan ddŵr wyneb.

**Tipio anghyfreithlon**

Mae tipio anghyfreithlon - dympio gwastraff ar dir neu mewn dŵr yn anghyfreithlon - yn difetha ein mwynhad o’n trefi a chefn gwlad, yn llygru’r amgylchedd, yn aml gyda microblastigau, ac yn niweidiol i iechyd pobl a bywyd gwyllt.

Ymddengys ei bod yn broblem gynyddol yng Nghymru - ac yn ddrud hefyd. Yng Nghymru roedd 42,171 achos o ddipio anghyfreithlon yn 2024, gan achosi cost o bron i £2m.

Yn yr un flwyddyn, roedd **807 achos o ddipio anghyfreithlon** ledled Ceredigion Penfro, gan achosi cost o oddeutu **£50,900**.

**Tir halogedig**

**Yn Sir Benfro gallai 4700 o safleoedd a allai fod wedi'u halogi** megis cyn-safleoedd diwydiannol a safleoedd tirlenwi segur fod wedi'u halogi â chemegau niweidiol yn ôl tystiolaeth sydd ar gael i'r cyhoedd.  Felly nid oes gan y cyhoedd unrhyw wybodaeth, neu ychydig o wybodaeth, am ddiogelwch y tir a all fod o dan gartrefi, ysgolion, parciau ac ardaloedd byd natur.

Gofynnodd Cyfeillion y Ddaear Cymru i Gyngor Sir Benfro pa wybodaeth yr oeddent yn ei gadw am safleoedd halogedig a rhai a allai fod wedi'u halogi. Buom yn ymchwilio i ba wybodaeth sydd ar gael yn gyhoeddus ar wefan y cyngor ac yn edrych ar ba astudiaethau a ymgymerwyd â hwy yn y gorffennol.

Cafodd **dros 45,000 o safleoedd tir a allai fod wedi'u halogi** eu hadnabod ledled Cymru - ond does bron dim un ohonynt wedi'u harchwilio.

**Dywedodd Bettina Becker, o Cyfeillion y Ddaear Sir Benfro:**

**"Mae'n gwarthus i weld y ffigurau llwyr hyn sy'n darlunio llygredd yn y gorffennol a'r presennol, ac effaith yr argyfwng hinsawdd ar ein cymunedau lleol. Mae'n yn dangos faint sydd i'w wneud, ac rydym yn gobeithio y bydd yr ymgeiswyr sy'n sefyll yn yr etholiad y Senedd yng Ngheredigion Penfro yn ymrwymo i weithredu cadarn mewn ymateb i'r argyfwng hinsawdd a natur yr ydym yn ei wynebu."**

**DIWEDD**

## Ymholiadau gan y cyfryngau

Bettina Becker, email: info@foepembrokeshire.org.uk

**Nodiadau i Olygyddion:**

1. Mae'r data yn cwmpasu pob un o 16 etholaeth y Senedd ledled Cymru
1. Ffiniau etholaethau'r Senedd 2026 | MapDataCymru
2. Focaldata 2023 Pleidleisio gan ddefnyddio dull atchweliad lluosog ac ôl-haenu, comisiynwyd gan HOPE not hate. Data ar gael yn: https://www.localintelligencehub.com
3. Data carthion: cyfanswm gollyngiadau a'u hyd yn ystod 2004
4. Mae'r data perygl o lifogydd yn cynnwys eiddo preswyl ac amhreswyl
5. Mesuriadau ansawdd aer yn erbyn canllawiau WHO 2021
6. Data damweiniau ffyrdd yn cymharu ffigyrau o 2022 i 2024